

CGGC 2018

CYNHADLEDD
GENEDLAETHOL
G O F A L
CYMDEITHASOL

11-13 MEDI

RHAGLEN Y
GYNHADLEDD



Leading Social Services
in Wales
Yn arwain
Gwasanaethau Cymdeithasol
yng Nghymru



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

NSPCC
CYMRU | WALES

thewaterloofoundation*

Lansiad y gynhadledd

Dydd Mawrth, 11 Medi

6.00-8.00pm	Derbyniad y gynhadledd	Ardal arddangosfa, Cyntedd
-------------	------------------------	----------------------------

Cynhadledd – diwrnod 1

Dydd Mercher, 12 Medi

8.30am	Arddangosfa'n agor: Cofrestru a lluniaeth	
9.30-10.00am	Agoriad y gynhadledd Areithiau croeso gan gadeiryddion y gynhadledd, Jenny Williams, llywydd ADSS Cymru, ac Arwel Ellis Owen OBE, cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. I'w ddilyn gan: <ul style="list-style-type: none">llais y dinesyddgair gan NSPCC Cymru, noddwr ein cynhadledd	Neuadd Dora Stoutzker, Llawr gwaelod
10.00-10.15am	Anerchiad agoriadol: Huw Irranca-Davies AM <i>Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol</i> Penodwyd Huw yn Weinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol ym mis Tachwedd 2017, wedi iddo gael ei ethol i Gynulliad Cymru fel Aelod Cynulliad dros Ogwr ym Mai 2016. Gwasanaethodd yn flaenorol fel Aelod Seneddol Ogwr o 2002 i 2016	Neuadd Dora Stoutzker, Llawr gwaelod
10.15-10.45am	Nazir Afzal OBE <i>Llai o ddysgu gwersi a mwy o wneud pethau'n iawn y tro cyntaf</i> Mae Nazir yn gynghorydd cenedlaethol i Lywodraeth Cymru ar gael gwared â thrais ar sail rhywedd. Gweithredodd fel prif erlynydd y goron yng ngogledd orllewin Lloegr o 2011 i 2015, gan arwain timau a oedd yn gyfrifol am nifer o achosion uchel eu proffil, gan gynnwys achos cam-drin plant Rochdale	Neuadd Dora Stoutzker, Llawr gwaelod
10.45-11.15am	Lluniaeth ac arddangosfa	
11.15am-12.15pm	Sesiwn lawn: Dementia a'r celfyddydau <i>Drama, cerddoriaeth a phobl sy'n byw gyda dementia</i> Yn cynnwys cyfraniadau gan: <ul style="list-style-type: none">yr elusen hynod lwyddiannus Re-Live a'i chynhyrchiad theatr arloesol <i>Memoria</i>canfyddiadau'r comisiwn ar ddementia a cherddoriaeth, a edrychodd ar y potensial ar gyfer defnyddio cerddoriaeth therapiwtig gyda phobl â dementiaWith Music in Mind, sy'n rhedeg grwpiau canu ar gyfer pobl mewn perygl o ddiodef arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd, neu lesiant corfforol neu fedduliol sy'n gwaethu	Neuadd Dora Stoutzker, Llawr gwaelod
12.15-1.30pm	Cinio ac arddangosfa Digwyddiadau ymylol	
1.30-2.05pm	Prif siaradwr <i>Cyn i fi anghofio: Sgwrs gyda Fiona Phillips</i> Yn gyn-gyflwynydd GMTV, gadawodd Fiona'r sioe ym mis Awst 2008 i ofalu am ei thad Phil a oedd wedi cael diagnosis o glefyd Alzheimer's, ddim ond blwyddyn ar ôl i'w mam farw o'r un clefyd. Yma, mae'n agor ei chalon am ei phrofiadau o ofalu am ei rhieni	Neuadd Dora Stoutzker, Llawr gwaelod

Nodwch fod y wybodaeth yn y rhaglen hon yn gywir ar yr adeg yr aeth i brint a gallai newid.

2.05-3.00pm	Gweithdai 1 (<i>ar yr un pryd</i>) 1. Sally Howell, International Longevity Centre UK <i>Y Comisiwn ar Dementia a Cherddoriaeth: Ystyried beth sy'n gweithio a sut i ddylanwadu ar newid</i> Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar waith y comisiwn, a fu'n archwilio rôl ymyriadau seiliedig ar gerddoriaeth o ran atal, diagnosis, triniaeth, gofal a gofal diwedd oes i bobl â dementia 2. Hayley Clark a Helen Gazzola, NSPCC <i>Defnyddio mwy ar dystiolaeth mewn ymarfer: gwyddor gweithredu ac arloesi</i> Edrych ar ddefnyddio fframweithiau gwyddor gweithredu a newid ymddygiad sefydliadol i roi mwy o raglenni cynaliadwy ar sail tystiolaeth ar waith ym maes gofal cymdeithasol plant 3. Dr Lydia Hayes, Prifysgol Caerdydd <i>Golwg ar y gweithlu gofal cartref</i> Mae Lydia'n rhoi golwg ddiglyffelyb ar brofiadau gweithwyr gofal cartref, yn seiliedig ar ei chyfweiliadau helaeth gyda staff yn y sector. Canfu ei hymchwil weithlu medrus, balch sy'n teimlo eu bod yn cael eu tangyllido, eu gorweithio, ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi fel y dylent 4. Heléna Herklots CBE a Daisy Cole, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru <i>Ail-ystyried seibiant i bobl yn byw â dementia, gofalywyr teuluol a ffrindiau</i> Bydd y gweithdy'n rhoi cyfle i ail-ystyried darpariaeth seibiant fel y gall ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol, a gweithgaredd ystyrllon a pherthnasoedd ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalywyr 5. Nicola Stubbins a Vanessa Young, ADSS Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru <i>Meddwl yn strategol, cyflawni'n lleol</i> Trafodaeth ynghylch sut y gallwn ddarparu system iechyd a gofal ddi-dor a chynaliadwy. Bydd y gweithdy hefyd yn edrych ar y cyd-destun ar gyfer newid a sut y mae mudiadau tramor wedi mynd i'r afael â heriau gweithio ar draws ffiniau 6. Simon Pickthall, Vanguard Cymru <i>Creu system sy'n galluogi ymarfer gwych</i> Bydd y sesiwn yn rhannu fframweithiau a fydd yn cynorthwyo ymarferwyr i ystyried eu hymarfer a gweithio gydag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn flaenaf yn eu meddwl 7. Dr Diane Burns, Adrian Roper a Sue Evans, Prifysgol Sheffield, Cartrefi Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru <i>Ydyn ni'n gwario'n harian yn gall?</i> Mae'r uchelgais o integreiddio gofal a chynaliadwyedd yn codi cwestiynau ariannol. Gall safbwynt economi sylfaenol darparu'r atebion? Bydd y sesiwn yn esbonio'r economi sylfaenol, rhannu dysgu, ac yn ystyried sut y gallwn ni gyd elwa o wario'n harian yn well 8. Karen Evans, James Wood a Julian Molloy, Gwasanaethau Plant Sir Ddinbych <i>Uno gwasanaethau plant ac addysg</i> Yn 2015, penderfynodd Sir Ddinbych ddod ag addysg a gwasanaethau plant dan arweinyddiaeth a rheolaeth un pennaeth gwasanaeth. Bydd y gweithdy hwn yn trafod y dull gweithredu newydd hwn, a'r hyn a ddysgwyd ganddynt a'r effaith a gafodd	Neuadd Dora Stoutzker, Llawr gwaelod Stiwidio Seligman, Llawr cyntaf Stiwidio Simon Gibson, Ail lawr Stiwidio Shirley Bassey, Ail lawr Stiwidio Rowe-Beddoe, Ail lawr Stiwidio 2, Llawr cyntaf Ystafell Foyle, Llawr cyntaf Ystafell Carne, Ail lawr
3.00-3.30pm	Lluniaeth ac arddangosfa	

Ein cadeiryddion



Jenny Williams, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
Jenny yw llywydd presennol ADSS Cymru, y sefydliad arweinyddiaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli llais cyfun y rhai sy'n gweithio ym maes gwasanaethau cymdeithasol ar ystod o faterion. adsscymru.org.uk



Arwel Ellis Owen OBE, Gofal Cymdeithasol Cymru
Arwel yw cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru, y sefydliad sy'n dwyn ynghyd y gwaith o reoleiddio a datblygu'r gweithlu, a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol. Ein nod yw magu hyder yn y gweithlu, ac arwain a chefnogi gwelliannau ym maes gofal. gofalcymdeithasol.cymru

Ein noddwyr



NSPCC Cymru
Elusen blant sy'n brwydro i roi terfyn ar gam-drin plant. Rydym yn helpu plant sydd wedi cael eu cam-drin i ailadeiladu eu bywydau, yn amddiffyn plant mewn perygl ac yn canfod y ffordd orau o atal cam-drin plant. nspcc.org.uk/wales



The Waterloo Foundation
Sefydliad annibynnol sy'n rhoi grantiau ac yn darparu cefnogaeth i fudiadau, ac sy'n cynorthwyo gofawyr di-dâl, yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. waterloofoundation.org.uk



CareWorks
Rydym yn darparu atebion meddalwedd i alluogi sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl. Mae ein hatebion yn rhyddhau gweithwyr oddi wrth waith papur diangen. careworks.co.uk



Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Ni yw prif ddarparwr addysg uwch rhan-amser a dysgu o bell gyda chefnogaeth ledled Cymru. Mae gennym dros 7,000 o fyfyrwyr ledled Cymru yn cael cefnogaeth gan 300 o diwtoriaid. open.ac.uk/wales



Practice Solutions
Rydym yn chefnogi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn y sector cyhoeddus a phreifat, a'r trydydd sector i arwain, rheoli a darparu gwasanaethau cynaliadwy a thrawsnewidiol i sicrhau llesiant pobl mewn cymunedau. practicesolutions-ltd.co.uk

Ein harddangoswyr

STONDIN ARDDANGOSWR

1	CareWorks
2	NSPCC Cymru
3	NSPCC Cymru
4	Y Brifysgol Agored yng Nghymru
5	Practice Solutions
7	ADSS Cymru
8	Gofal Cymdeithasol Cymru
9	ICS Assessment Services
10	Data Cymru
11	Dewis Cymru
12	Skylakes
13	CM2000
14	Appropriate Adults UK
15	Barnardo's Cymru
16	Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol
17	Cyddfederasiwn GIG Cymru
18	Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol Cymru
19	Canolfan Cydweithredol Cymru
20	Shared Lives Plus
21	The Guardian
22	Regener8
23	Ymddiriedolaeth Gofawyr Cymru
24	Plant yng Nghymru
25	BASW Cymru
26	Disabled Living Foundation

STONDIN ARDDANGOSWR

27	Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
28	Academi Wales
29	Llywodraeth Cymru
30	Cefnogi Trydydd Sector Cymru
31	Tunstall Healthcare
32	Age Cymru
33	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru
34	Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru
35	GMB
36	Arddangosfa celf
37	Arddangosfa celf
38	Arddangosfa gofal gan frodyr/chwirydd
39	Arddangosfa gofal gan frodyr/chwirydd
40	Accomplish
41	Forget Me Not Choir
42	Wales & West Utilities
43	GambleAware
44	Delta Wellbeing
45	Iechyd Cyhoeddus Cymru
46	Cymdeithas Alzheimer's
47	HC-One
48	Gofal Cymunedol
49	Wal Post-It
50	Wal syniadau

Cornel ymchwil

Dydd Mercher, 12 Medi

10.45-11.15am	Heather Tyrrell	Datblygu modelau cydgynhyrchu o oruchwyliaeth gwaith cymdeithasol
12.15-1.00pm	Fiona Verity a Nick Andrews, Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol	Sesiwn "catch a hatch"
1.00-1.30pm	Christala Sophocleous, WISERD	Gwerth cymdeithasol systemau gofal
3.00-3.30pm	Alison Orrell, Prifysgol Bangor	Dadansoddiad rhwydwaith cymdeithasol
Trwy'r dydd	Lisa Trigg a Gwyndaf Parry, Gofal Cymdeithasol Cymru	Diogelu data ar gyfer y dyfodol – rhannu'ch meddyliau am ddefnyddio data mewn ymchwil
Trwy'r dydd	Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol	Siaradwch ag ymchwiliwr – dysgwch sut i gynyddu syniad ymchwil

STONDIN ARDDANGOSWR

1	Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
2	Gofal Cymdeithasol Cymru
3	Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru
4	The Dementia Engagement and Empowerment Project (DEEP)

STONDIN ARDDANGOSWR

5	Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD)
6	Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus i Weithwyr Cymdeithasol (DAPP)
7	Enrich / My Home Life